

13 YN MARW ...

Ie, dechrau pennawd papur newydd Ebrill 16, 2011. A dyma'r pennawd yn gyflawn: **'13 yn marw mewn corwyntoedd yn America'**.


Aeth yr adroddiad ymlaen fel hyn:

'Mae o leiaf 13 o bobl wedi cael eu lladd mewn stormydd tornado yn rhai o daleithiau deheuol America dros y deuddydd diwethaf.

Fe gychwynnodd y stormydd yn nhalaith Oklahoma'n hwyr nos lau, gan ledaenu'n ddiweddarach i Arkansas, Alabama, Mississippi a Georgia.

Ymhlith y rhai a gafodd eu lladd y mae tri aelod o'r un teulu. Fe fu'r tri farw pan gafodd eu cartref yn Alabama, 24 milltir o'r brifddinas, Montgomery, ei daro gan y tornado'n hwyr neithiwr.'

Yn anffodus, nid yw digwyddiadau fel rhai mis Ebrill yn eithriad yn yr ardal hon sy'n cael ei hadnabod fel 'Tornado Alley'.



Pam mae cymaint o gorwyntoedd yn yr ardal hon? Yn syml, am fod y tri pheth sydd ei angen i greu corwynt i'w cael yno. Mae stormydd mellt a tharannau yn byw ar aer cynnes a llaith ac mae ar stormydd mellt a tharannau sy'n troelli – y rhai sy'n troi'n gorwyntoedd – angen gwyntoedd sy'n chwythu'n isel uwch y ddaear ac yn newid cyfeiriad.

Ac mae'r cyfan ar gael yng nghanolbarth Gogledd America.

Caiff digon o wlybaniaeth trofannol ei chwythu i'r de o Gwlff Mexico a daw gwyntoedd poeth a sych o fynyddoedd y Rockies. Pan fydd y gwyntoedd poeth a sych yn taro yn erbyn gwyntoedd llaith y Gwlff maent yn creu corwynt.

Bydd cymylau storm yn ffurfio ac yn troelli ac yna bydd yr aer cynnes yn cael ei sugno i fyny ac mae'n creu twmffat o wynt sy'n troelli'n gynt ac yn gynt. Gall y rhai cryfaf, sy'n mesur F5 ar Raddfa Fujita gyrraedd cyflymder o 320 cilometr yr awr, gan sugno gwartheg a cheir i'r awyr a gwneud difrod i adeiladau concrit.